

Wrth iddynt wneud cynnydd

Llwybr Lluniau

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Gofynnwch i'r plant ddilyn y llwybr gan ddefnyddio lluniau/geiriau'n gliwiau i gyrraedd y lleoliad neu'r gwrthrych nesaf
- Gofynnwch i'r plant gasglu gwrthrych o bob lleoliad neu baru symbol/siâp â lleoliad, e.e. gall y plant weld triongl yn y tŷ bach twt, ac felly byddant yn tynnu llun neu'n gosod triongl wrth ei yml
- Gofynnwch i'r plant ddarganfod y cliw er mwyn symud ymlaen i'r lleoliad nesaf
- Gofynnwch i'r plant geisio darganfod y cliwiau/atebion i gyd cyn gynted ag y gallant
- Crëwch draeth/golygfa arall o'r byd, ac anogwch y plant i chwilio am gliwiau ar gyfer pethau y gallent eu gweld yn y lle hwnnw



Adnoddau

- Offer ar gyfer yr awyr agored, tuneli, parasiwtiau, estyll cydbwysu, byrddau trestl/symudiadau bach
- Cliwiau ar ffurf lluniau/geiriau, taflenni cwestiwn, pethau i'w casglu
- Llyfr stori 'Y Parti ar y Traeth', llyfr stori 'Planed Chwarae'

Cwestiynau

- Llun o beth allai hwn fod?
- Disgrifiwch beth rydych chi'n ei weld. Ble rydych chi wedi'i weld o'r blaen?
- Ble rydych chi wedi edrych?
- Beth welsoch chi y tu ôl i'r wal?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn symud yn ddiogel wrth geisio symud cyn gynted ag y gallant
- bod y plant yn gweithio'n unigol, mewn parau neu mewn grwpiau bach

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cydbwysedd, cydweithio
- Cliw, gwylio, chwilio am, chwilota
- Cymharu, paru, map
- Sgwâr, cylch, triongl, petryal, siâp hirgrwn
- Cranc, cragen, gwymon, creadur estron

Cyfleoedd i:

- gofnodi eu harsylwadau gan ddefnyddio symbolau neu luniau
- tynnu llun map syml
- adnabod, enwi a pharu siapiau 2D cyffredin
- defnyddio iaith ynghylch safle

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn cofnodi ei arsylwadau gan ddefnyddio symbolau neu luniau?
 - Yn tynnu llun map syml?
- Yn adnabod, yn enwi ac yn paru siapiau 2D cyffredin?
 - Yn defnyddio iaith ynghylch safle?

weithiau

gan amlaf

- Symudwch o gumpas y llwybr gyda'r plentyn, gan ddefnyddio iaith ynghylch safle i ofyn cwestiynau i'w helpu i chwilota a darganfod cliwiau
- Defnyddiwch ffotograffau i greu map ar ffurf collage
- Symudwch ar hyd y llwybr gyda'r plentyn, a helpwch e' ag unrhyw gwestiwn a allai fod ganddo
- Defnyddiwch storïau, cerddi, lluniau, rhigymau a rapiau i helpu'r plant i enwi ac adnabod siapiau

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Lles – deall ac adnabod y newidiadau sy'n digwydd i'w cyrff wrth iddynt wneud ymarfer corff, a disgrifio'r newidiadau sy'n digwydd i'w hanadl, cyflymder curiad eu calon, eu hymddangosiad a'u teimladau
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Lleoedd a phobl ac Amser a phobl – defnyddio a llunio mapiau syml, gwneud arsylwadau a mesuriadau a chadw cofnodion

- Anogwch y plentyn i dynnu llun map a marcio'i lwybr arno, gan labelu'r hyn a welodd ym mhob lleoliad
- Gofynnwch i'r plentyn adnabod ac enwi siapiau 2D llai cyffredin
- Gofynnwch i'r plentyn adnabod ac enwi siapiau 3D cyffredin
- Amserwch y plentyn i weld pa mor gyflym y gall gwblhau'r llwybr